# Y Pwyllgor Busnes

**Cofnodion BC(3)04-09**

**Dyddiad:** Dydd Mawrth 3 Chwefror 2009

**Amser:** 8.30 a.m.

**Lleoliad:** Ystafell Gyfarfod 4ydd Llawr, yr Uned Gorfforaethol

**Aelodau'r Cynulliad yn bresennol**

Dafydd Elis-Thomas, Llywydd (Cadeirydd)

Carwyn Jones, Arweinydd y Tŷ

Jocelyn Davies, Rheolwr Busnes Plaid Cymru

David Melding, Y Ceidwadwyr Cymreig

Peter Black, Rheolwr Busnes Democratiaid Rhyddfrydol Cymru

**Swyddogion yn bresennol**

Adrian Crompton, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad

Marion Stapleton, Swyddfa Arweinydd y Tŷ

Aled Eirug, Ymgynghorydd Cyfansoddiadol

Sulafa Halstead, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau

Sian Wilkins, Pennaeth y Gwasanaethau Siambr a Deddfwriaeth

Marc Wyn Jones, Clerc y Pwyllgor Busnes

**1. Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau**

1.1 Dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth William Graham. Croesawodd David Melding a oedd yn ei gynrychioli, yn unol â Rheol Sefydlog 10.42.

**2. Cofnodion y cyfarfod blaenorol**

**(i) BC(3)03-08 (Cofnodion drafft) - Dydd Mawrth 27 Ionawr 2008**

2.1 Cyflwynwyd y cofnodion i'r pwyllgor ar eu ffurf ddrafft. Gan nad oedd unrhyw sylwadau, byddent yn cael eu cyfieithu yn barod i'w cyhoeddi.

**Camau i'w cymryd: Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Busnes**

**3. Busnes i ddod**

**Busnes yr wythnos hon - BC(3)04-09(p1)**

3.1 Dywedodd Arweinydd y Tŷ bod y datganiad gan y Gweinidog dros Dreftadaeth am y wybodaeth ddiweddaraf ar Faterion Twristiaeth, a oedd wedi'i drefnu ar gyfer dydd Mawrth, wedi ei ohirio tan 24 Chwefror.

3.2 Cyfeiriodd y Llywydd at y cynnig i gymeradwyo egwyddorion cyffredinol y Mesur Arfaethedig ynghylch Llywodraeth Leol (Cymru), a oedd wedi'i drefnu ar gyfer dydd Mawrth. Dywedodd na fyddai'n dewis y gwelliannau a gyflwynwyd i'r cynnig, yn unol â Rheol Sefydlog 7.19(iii).

3.3 Cytunodd y Pwyllgor na ddylai'r cyfnod pleidleisio ddigwydd cyn 5pm ddydd Mawrth na dydd Mercher.

3.4 Nododd y Pwyllgor drefn y busnes ar gyfer 3 a 4 Chwefror 2009.

**Amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf - BC(3)04-09(p2)**

3.5 Nododd y Pwyllgor amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf .

**Amserlen busnes y Cynulliad a busnes heblaw busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf - BC(3)04-09(p3)**

3.6 Cytunodd y Pwyllgor Busnes i drefnu'r eitem ganlynol o fusnes y Cynulliad:

Cynigion i ethol Aelodau i Bwyllgorau (1 munud) ar 11 Chwefror.

3.7 Cytunodd y Pwyllgor ar drefn busnes y Cynulliad.

3.8 Cytunodd y Pwyllgor ar drefn busnes heblaw busnes y Llywodraeth.

**4. Deddfwriaeth**

**Papur Eglurhaol gan y Gweinidog - Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Yr Iaith Gymraeg) 2009 - BC(3)04-09(p4a) ac Amserlen Darluniadol - BC(3)04-09(p4b)**

4.1 Bu'r Pwyllgor Busnes yn ystyried y papur ar Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Yr Iaith Gymraeg) 2009. Cytunodd y Pwyllgor i gyfeirio'r Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol arfaethedig at Bwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5 i'w ystyried yn fanwl, gyda 15 Mai fel dyddiad cau ar gyfer adrodd.

**5. Pwyllgorau**

**Cais i'r Is-bwyllgor Datblygu Gwledig gynnal cyfarfod ffurfiol oddi ar y safle yn Llanybydder - BC(3)04-09(p5)**

5.1 Cytunodd y Pwyllgor Busnes i'r cais am i'r Is-bwyllgor Datblygu Gwledig gynnal cyfarfod ffurfiol oddi ar y safle yn Llanybydder ddydd Iau 26 Mawrth, fel rhan o'i ymchwiliad i dagiau electronig defaid.

**YSGRIFENYDDIAETH Y PWYLLGOR BUSNES**